Lefel 2

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

MAWRTH 2019

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y cymhwyster	2
Nodau ac amcanion y pwnc	3
Cynnwys y pwnc	3
Gofynion asesu	4
Cynllun asesu	4
Deilliannau	6
Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo	6
Gofynion rhesymeg	6
Gofynion gweithredol	7
Atodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddio** o dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Safonol (Mawrth 2017)*[1]: *Cydymffurfio â Dogfennau Rheoleiddio.*

[1] http://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd. Datblygwyd y rhain yn dilyn ymgysylltu â rhanddeiliaid, a oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar-lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu eu bodloni wrth ddatblygu manyleb a deunyddiau asesu cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i'w gyflwyno mewn amrywiaeth o leoliadau gan gynnwys dysgu seiliedig ar waith, addysg bellach ac ysgolion. Mae'r cymhwyster hwn yn bennaf ar gyfer y rheini sy'n gweithio, neu sy'n chwilio am waith, ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Pan fo'n briodol, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo yn y ddogfen hon yn dod i rym o fis Mawrth 2019, ac maent wedi'u cynllunio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar gyfres newydd o gymwysterau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant[2] i'w haddysgu ar raglenni dysgu a ariennir gan arian cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.

Cyfyngir ar yr holl gymwysterau yn y gyfres am gyfnod o bum mlynedd o 1 Medi 2019 er mwyn sicrhau mai dim ond un fersiwn ohonynt sydd ar gael. Mae hyn yn golygu mai dim ond un corff dyfarnu a all ddyfarnu pob cymhwyster. Yn dilyn proses gaffael deg a thryloyw a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2017 a mis Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi llunio contract â chonsortiwm sy'n cynnwys City and Guilds of London Institute a CBAC i ddatblygu a chyflwyno'r holl gymwysterau yn y gyfres.

Dim ond cymhwyster sy'n bodloni'r holl ofynion a nodir yn y ddogfen hon, ynghyd â'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*[3] y bydd Cymwysterau Cymru yn ei gymeradwyo. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i fodloni'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu ystyried *Fair Access by Design*[4] (cyhoeddiad Saesneg yn unig). Rhaid i'r corff

[2] http://qualificationswales.org/media/2534/230517-determination-to-restrict-hsc-final-w.pdf
[3] http://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol
[4] http://gov.wales/docs/dcells/publications/150727-fair-access-by-design-en.pdf

dyfarnu a gomisiynwyd hefyd fodloni'r holl ofynion a nodir yn y *contract consesiwn a ddyfarnwyd* yn ystod camau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a chyflwyno'r cymhwyster.

Rhaid i gynnwys pwnc y cymhwyster hwn ymwneud â *Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan*[5].

Pan fo gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a nodir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a nodir yn yr *Amodau Cydnabod Safonol*, y gofynion yn y ddogfen hon fydd drechaf.

Strwythur y cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd gynnig tystysgrif am gymhwyster o 300 neu 500 o Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODA) i ddysgwyr a bydd angen ei diffinio o ran Cyfanswm Amser Cymhwyso (CAC) a chredydau.
2. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd alluogi dysgwyr i ddilyn llwybr sengl neu'r ddau lwybr.
3. Rhaid i deitlau'r cymwysterau ar QiW fod yn un o'r canlynol:
   3.1. "Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (llwybr sengl)" ar gyfer y llwybr Oedolion neu Blant a Phobl Ifanc; neu
   3.2. "Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd (llwybr cyfun)" ar gyfer y llwybr Oedolion a Phlant a Phobl Ifanc cyfun.
4. Rhaid i deitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau nodi pa lwybr yr ymgymerwyd ag ef.
5. Rhaid i gynllun Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd sicrhau'r canlynol:
   5.1. bod y deilliant a gyflawnir yn adlewyrchu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddangosir yn yr asesiadau;
   5.2. y gellir cymharu'r cymhwyster â chymwysterau ar yr un lefel ledled y DU.

[5] https://gofalcymdeithasol.cymru/dysgu-a-datblygu/fframwaith-sefydlu-cymru-gyfan-ar-gyfer-iechyd-a-gofal-cymdeithasol

Nodau ac amcanion y pwnc

6. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

   6.1. datblygu eu gwybodaeth am yr egwyddorion a'r gwerthoedd craidd sy'n ategu ymarfer ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'u dealltwriaeth ohonynt;

   6.2. datblygu eu gwybodaeth am ffyrdd o weithio yn y sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'u dealltwriaeth ohonynt;

   6.3. datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n llywio ymarfer effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol;

   6.4. meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth graidd i'w helpu i symud ymlaen er mwyn astudio ymhellach neu weithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Cynnwys y pwnc

7. Rhaid i gynnwys manyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

8. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd gynnwys y cynnwys gorfodol a nodir yn *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cynnwys Craidd (Atodiad A)*. Bydd y cynnwys hwn yn ffurfio 100% o gynnwys holl lwybrau'r cymhwyster.

   6.1 Mae unedau 5 i 7 o *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cynnwys Craidd* yn orfodol ar gyfer y llwybr Oedolion a'r llwybr Plant a Phobl Ifanc.

   6.2 Mae unedau 1 a 3 *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cynnwys Craidd yn orfodol ar gyfer y llwybr Oedolion yn unig*. Mae Unedau 2 a 4 yn orfodol ar gyfer y llwybr Plant a Phobl Ifanc yn unig.

   6.3 Mae pob uned *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Cynnwys Craidd* yn orfodol ar gyfer y llwybr Oedolion a'r llwybr Plant a Phobl Ifanc.

Gofynion asesu

9. Rhaid i'r asesiad o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol yn y manylebau alluogi dysgwyr i wneud y canlynol:

   a) Dangos gwybodaeth am gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a dealltwriaeth ohonynt.

   b) Cymhwyso gwybodaeth am gysyniadau, gwerthoedd a materion allweddol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a dealltwriaeth ohonynt, mewn cyd-destunau perthnasol.

Cynllun asesu

10. Rhaid ymdrin â holl gynnwys y pwnc yn yr asesiadau dros oes y fanyleb.

11. Bydd Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd yn cael ei asesu'n fewnol ac yn allanol.

12. Rhaid i'r fanyleb nodi pa gynnwys y bydd yr asesiad mewnol a/neu allanol yn ei gwmpasu. Rhaid i faint pob elfen asesiad fod yn gymharol gymesur â'r cynnwys a gaiff ei asesu.

13. Bydd yr asesiad allanol ar gyfer pob llwybr:

    13.1. yn cynnwys arholiad amlddewis;

    13.2. yn asesu'r cynnwys o bob uned;

    13.3. yn cael ei ategu gan fanyleb prawf sy'n nodi pa gynnwys a gaiff ei gwmpasu dros amser a'r cynnwys y mae'n rhaid i bob arholiad ei gwmpasu.

14. Bydd yr asesiadau mewnol ar gyfer y llwybr Oedolion:

    14.1. yn cynnwys tair tasg ysgrifenedig, gyda phob un yn seiliedig ar senario a gaiff ei gyhoeddi ymlaen llaw;

    14.2. yn asesu cynnwys o unedau 3, 5 a 6 (un dasg yr un), ac yn ymgorffori cynnwys o uned 1 ym mhob tasg;

    14.3. yn cael eu cynnal o dan yr amodau a gaiff eu hamlinellu gan y corff dyfarnu a bydd eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol ar ôl cwblhau pob tasg;

    14.4. ddim yn asesu cynnwys uned 7;

14.5. yn nodi'r math o dystiolaeth i'w chasglu a faint o dystiolaeth sydd ei hangen at ddibenion asesu.

15. Bydd yr asesiad mewnol ar gyfer y llwybr Plant a Phobl Ifanc:

15.1. yn cynnwys tair tasg ysgrifenedig, gyda phob un yn seiliedig ar senario a gaiff ei gyhoeddi ymlaen llaw;

15.2. yn asesu cynnwys o unedau 4, 5 a 6 (un dasg yr un), ac yn ymgorffori cynnwys o uned 1 ym mhob tasg;

15.3. yn cael eu cynnal o dan yr amodau a gaiff eu hamlinellu gan y corff dyfarnu a bydd eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol ar ôl cwblhau pob tasg;

15.4. ddim yn asesu cynnwys uned 7;

15.5. yn nodi'r math o dystiolaeth i'w chasglu a faint o dystiolaeth sydd ei hangen at ddibenion asesu.

16. Bydd yr asesiad mewnol ar gyfer y llwybr Oedolion a'r llwybr Plant a Phobl Ifanc:

16.1. yn cynnwys pedair tasg ysgrifenedig, gyda phob un yn seiliedig ar senario a gaiff ei gyhoeddi ymlaen llaw;

16.2. yn asesu cynnwys o unedau 3, 4 a 5 a 6 (un dasg yr un), â chynnwys o:

- uned 1 yn nhasg uned 3;
- uned 2 yn nhasg uned 4;
- naill ai uned 1 neu 2 yn nhasgau uned 5 ac uned 6;

16.3. yn cael eu cynnal o dan yr amodau a gaiff eu hamlinellu gan y corff dyfarnu a bydd eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol ar ôl cwblhau pob tasg;

16.4. ddim yn asesu cynnwys uned 7;

16.5. yn nodi'r math o dystiolaeth i'w chasglu a faint o dystiolaeth sydd ei hangen at ddibenion asesu.

17. Bydd yr asesiadau yr un mor heriol i bob dysgwr, beth bynnag yw'r llwybr sy'n cael ei ddilyn.

18. Rhaid i'r mathau o gwestiynau yn yr asesiadau roi'r cyfle i ddysgwyr roi cymysgedd o atebion byr a hirach.

19. Rhaid i gynlluniau marcio asesiadau nodi sut mae'r marciau sydd ar gael ar gyfer pob cwestiwn neu dasg asesu yn gysylltiedig â'r deilliannau dysgu.

Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd

20. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd fod ar gael yn ôl y galw.

21. Rhaid i fanyleb Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd yn nodi sawl gwaith y gellir ail-sefyll yr asesiadau.

Deilliannau

22. Bydd dysgwyr sy'n cwblhau pob asesiad gofynnol yn llwyddiannus ar gyfer y llwybr a ddefnyddiwyd o fewn *Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd* yn cael tystysgrifau.

Cyflwyno cymwysterau i'w cymeradwyo

23. Wrth gyflwyno cymhwyster i Cymwysterau Cymru i'w gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu dogfen fanyleb, deunyddiau asesu enghreifftiol ar gyfer pob uned/cydran a dogfen esboniadol sy'n esbonio'r rhesymeg dros nodweddion cynllunio allweddol y cymhwyster arfaethedig (dogfen resymeg).

Gofynion rhesymeg

24. Diben y ddogfen resymeg yw cynorthwyo'r broses o adolygu a chymeradwyo cymhwyster, ac ni fwriedir iddi gael ei chyhoeddi.

25. Rhaid i'r ddogfen resymeg esbonio'r canlynol:

    25.1. strwythur y cymhwyster, a'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys yn y ffordd honno;

    25.2. sut bydd asesiadau mewnol ac allanol yn ymdrin â'r cynnwys dros amser (gan gynnwys manyleb y prawf asesu allanol);

    25.3. y strwythur asesu, gan gynnwys nifer yr unedau/elfennau asesu, a phwysoliadau, dyraniad marciau a hyd yr unedau/elfennau asesu hynny;

    25.4. cynllun cynlluniau marcio a sut y cânt eu defnyddio;

    25.5. sut y bydd asesiadau allanol yn cael eu cynnal yn ôl y galw;

    25.6. sut mae'r amodau a gaiff eu gosod ar gyfer asesiadau mewnol yn arwain at ddeilliannau dibynadwy, ac yn briodol ar gyfer pob lleoliad;

25.7. sut y cafodd y gofyniad i gynnwys safbwynt Cymreig ei fodloni a sut mae'r dull gweithredu yn briodol i'r pwnc;

25.8. y prosesau a ddefnyddir i osod a chynnal safonau yn yr asesiadau;

25.9. y prosesau cynllunio a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rhesymeg dros y ffiniau arfaethedig ar gyfer pob cydran ac ar gyfer y cymhwyster ar y cyfan.

Gofynion gweithredol

26. Rhaid i'r fanyleb nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd ar gyfer aseswyr, sicrhawyr ansawdd mewnol a sicrhawyr ansawdd allanol.

27. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys gwybodaeth benodol am ofynion gweithredol, gan gynnwys:

27.1. cofrestriadau;

27.2. sicrhau ansawdd;

27.3. prosesau asesu.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:

Ymholiadau
Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Parc Imperial
Coedcernyw
Casnewydd
NP10 8AR

ymholiadau@cymwysteraucymru.org

Atodiad A

Deilliannau dysgu

D.S. Nid yw rhifau'r adrannau yn ddilyniannol gan eu bod yn cael eu trefnu i ddangos llwybrau.

Oedolion	Uned 1 : Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)	1.1 Deall sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Chod Ymddygiad ac Ymarfer yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth i unigolion 1.2 Deall sut mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol 1.3 Deall sut i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn 1.4 Deall sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 1.5 Deall sut mae cymryd risgiau cadarnhaol yn cefnogi llesiant, llais, dewis a rheolaeth 1.6 Deall sut i ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol ag unigolion, eu teuluoedd a gofalwyr yng nghyd-destun 'ffiniau proffesiynol 1.7 Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol 1.8 Deall pwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru i unigolion a gofalwyr 1.9 Deall sut y gellir defnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol i gwtogi ar arferion rhwystrol ym maes gofal cymdeithasol 1.10 Deall sut mae newid a phontio yn effeithio ar unigolion 1.11 Deall sut y gall eich credoau, eich gwerthoedd a'ch profiadau eich hun mewn bywyd effeithio ar eich agwedd a'r ffordd rydych yn ymddwyn tuag at unigolion a gofalwyr
	Uned 3: Iechyd a llesiant (oedolion)	3.1 Deall ystyr llesiant yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol 3.2 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant unigolion

		3.3 Gwybod sut i helpu unigolion gyda'u gofal personol a'u helpu i reoli ymataliaeth 3.4 Deall arferion da wrth ofalu am friwiau pwyso 3.5 Gwybod sut i helpu unigolion gyda gofal iechyd geneuol a gofal ceg da 3.6 Deall pwysigrwydd gofal traed ar gyfer iechyd a llesiant unigolion 3.7 Deall y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rhoi meddyginiaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol 3.8 Deall pwysigrwydd maeth a hydradu ar gyfer iechyd a llesiant unigolion 3.9 Gwybod sut i atal cwympiadau 3.10 Deall y ffactorau sy'n effeithio ar ofal diwedd oes 3.11 Deall sut y gellir defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi iechyd a llesiant unigolion 3.12 Deall sut y gall nam ar y synhwyrau effeithio ar iechyd a llesiant unigolion 3.13 Deall sut y gall byw gyda dementia effeithio ar iechyd a llesiant unigolion 3.14 Deall sut y gall salwch meddwl effeithio ar iechyd a llesiant unigolion 3.15 Deall sut y gall camddefnyddio sylweddau effeithio ar iechyd a llesiant unigolion
Plant a Phobl Ifanc	Uned 2 : Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (plant a phobl ifanc)	2.1 Deall sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth i blant a phobl ifanc 2.2 Deall sut mae dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau yn ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol 2.3 Deall sut i ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn 2.4 Deall sut i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant 2.5 Deall sut mae cymryd risgiau cadarnhaol yn cefnogi llesiant, llais, dewis a rheolaeth 2.6 Deall sut i ddatblygu cydberthnasau cadarnhaol â phlant a phobl ifanc a'u

		teuluoedd a gofalwyr yng nghyd-destun 'ffiniau proffesiynol' 2.7 Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol 2.8 Deall pwysigrwydd y Gymraeg a diwylliant Cymru i blant a phobl ifanc 2.9 Deall sut y gellir defnyddio dulliau gweithredu cadarnhaol i gwtogi ar arferion rhwystrol ym maes gofal cymdeithasol 2.10 Deall sut mae newid a phontio yn effeithio ar blant a phobl ifanc 2.11 Deall sut y gall eich credoau, eich gwerthoedd a'ch profiadau eich hun mewn bywyd effeithio ar eich agwedd a'r ffordd rydych yn ymddwyn tuag at blant a phobl ifanc
	Uned 4 : Iechyd a llesiant (plant a phobl ifanc)	4.1 Deall beth yw ystyr llesiant yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol 4.2 Gwybod pa ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a llesiant plant a phobl ifanc 4.3 Gwybod pa amgylcheddau sy'n cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant a phobl ifanc 4.4 Deall rôl chwarae er mwyn cefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant 4.5 Deall datblygiad lleferydd, iaith a chyfathrebu 4.6 Gwybod sut i gefnogi iechyd, llesiant a datblygiad plant ag anghenion cymorth ychwanegol 4.7 Gwybod sut i roi cyngor, arweiniad a chymorth i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd sy'n eu helpu i wneud dewisiadau cadarnhaol o ran eu hiechyd a'u llesiant 4.8 Deall rolau a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rhoi meddyginiaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol 4.9 Gwybod sut i helpu plant a phobl ifanc gyda'u gofal personol 4.10 Deall pwysigrwydd maeth a hydradu ar gyfer iechyd a llesiant plant a phobl ifanc
Pob llwybr	Uned 5 : Ymarfer Proffesiynol fel gweithiwr iechyd a	5.1 Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol

	gofal cymdeithasol	5.2 Gwybod sut i ddatblygu a gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol ag eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol 5.3 Deall sut mae gweithio'n effeithiol mewn tîm yn cefnogi ymarfer da ym maes iechyd a gofal cymdeithasol 5.4 Gwybod sut i drin gwybodaeth 5.5 Deall pwysigrwydd cynnal proffesiwn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol 5.6 Deall sut mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cyfrannu at ymarfer proffesiynol
	Uned 6 : Diogelu unigolion	6.1 Deall diben deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a chodau ymddygiad ac ymarfer proffesiynol sy'n ymwneud â diogelu unigolion 6.2 Deall sut i weithio mewn ffyrdd sy'n diogelu unigolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod 6.3 Deall y ffactorau, sefyllfaoedd a chamau gweithredu a allai arwain neu gyfrannu at niwed, camdriniaeth neu esgeulustod 6.4 Deal sut i ymateb, cofnodi ac adrodd ar bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu
	Uned 7 : Iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol	7.1 Gwybod sut i fodloni gofynion deddfwriaethol o ran iechyd a diogelwch yn y gweithle 7.2 Deall sut y caiff asesiadau risg eu defnyddio i gefnogi iechyd a diogelwch yn y gweithle 7.3 Gwybod sut i hyrwyddo diogelwch tân mewn lleoliadau gwaith 7.4 Deall yr egwyddorion symud a thrin a symud a lleoli allweddol 7.5 Deall prif achosion heintiau a sut i atal heintiau rhag lledaenu yn y gweithle 7.6 Gwybod sut i roi mesurau diogelwch bwyd ar waith 7.7 Gwybod sut i storio, defnyddio a chael gwared ar sylweddau peryglus yn ddiogel 7.8 Gwybod sut i gynnal diogelwch yn y lleoliad gwaith 7.9 Gwybod sut i reoli straen